

Mr Trevor Torrington
Independent Community Living Ltd
Craegmoor House
Perdiswell Park
Worcester
WR3 7NW

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

28 Ebrill 2014

Annwyl Mr Torrington,

Parthed: Ymweliad ag Ysbyty Cefn Carnau ar yr 8, 9 a 10 Ebrill 2014

Fel y gwyddoch, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol Cefn Carnau gyda'r nos ar 8 a drwy'r dydd ar y 9 a 10 Ebrill 2014. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom feysydd sy'n haeddu sylw a dyma rai ohonynt:

- Y berthynas dda a welsom rhwng y cleifion a'r staff.
- Roedd y cynllun 'Your Voice' yn gadarnhaol iawn, gan rymuso'r cleifion a rhoi iddynt lais ar amrywiol faterion ac ystyriaethau.
- Yr agwedd oedd gan y tîm amlddisgyblaeth oedd bod popeth yn bosibl, ac roedd y ffordd yr oedd cyfarfodydd yn datblygu yn cael canlyniad cadarnhaol iawn i'r cleifion.
- Roedd yr holl staff wedi cael eu gwerthuso ar gyfer y flwyddyn.
- Mae penodi gweinyddydd Deddf Iechyd Meddwl cynorthwyol wedi gwella'r cyswllt wyneb wrth wyneb a'r capasiti i sicrhau gweithdrefnau cadw cleifion priodol dan y Ddeddf.

- Mae'r gwasanaeth yn datblygu ac yn symud ymlaen mewn nifer o feysydd allweddol gan gynnwys grymuso cleifion a gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.
- Roedd lefel y mewnbwn seicoleg i'r cleifion yn dda iawn.

Fe wnaeth ein hymweliad amlygu llawer o bryderon hefyd. Darparom drosolwg o'n pryderon ar lafar i'ch rheolwr cofrestredig ar ddiwedd ein hymweliad ar 10 Ebrill 2014. Mae crynodeb o'r rhain, sy'n cynnwys manylion y rheoliadau sy'n cael eu torri i'w gweld isod:

Y mater sy'n peri pryder	Rheoliad
1. Dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar y meysydd a restrir yn Rheoliad 28, i AGIC bob 6 mis. Nid oedd yr adroddiadau a welwyd yn ystod ein hymweliad yn darparu sicrwydd digonol o ddadansoddi cwynion a chyfweliadau gyda chleifion a staff ac ni chyflwynwyd dim adroddiadau i AGIC.	Rheoliad 28 (2) (a) (b) (c) a (3) a (4) (a) (b) (c) a (5) (a) (b) (c)
2. Archwiliom yr amgylchedd a gwnaed yr arsylwadau canlynol: a. Mae gofyn adnewyddu ac ailaddurno'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau ar ward Sylfaen yn llwyr. Roedd marciau ar y lloriau, y cyfleusterau a'r waliau ac roedd angen eu hadnewyddu. b. Ar ward Sylfaen roedd un ystafell ymolchi/toiled nad oedd yn lân. Roedd y bin yn orlawn a'r toiled yn llawn o bapur toiled. Rhaid cyflwyno proses gadarn ar gyfer archwilio a glanhau'r ystafelloedd ymolchi/toiledau. c. Roedd y lloriau yn y toiledau ar ward Bryntirion wedi'u marcio a'u staenio. Rhaid gosod llawr newydd. d. Mae gofyn adnewyddu ystafelloedd gwelyau'r cleifion i hwyluso llefydd storio digonol, lleihau'r peryglon baglu a darparu amgylchedd mwy pleserus.	Rheoliad 26 (2) (a) (b) ac (c)
3. Archwiliwyd nifer o gynlluniau gofal a gwnaed yr arsylwadau canlynol: a. Mae Claf A yn afiachus o ordew ac nid oedd dim cofnod ohono'n cael ei bwysu er Mai 2013. b. Ni ellir gwerthuso cynllun gofal ar hybu iechyd yn effeithiol heb wybod pwysau claf A. c. Roedd cynllun cyffuriau ac alcohol wedi'i	Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)

sefydlu ar gyfer claf A ac fe'i gwerthuswyd yn ddiweddar. Er hynny, ni fu gan y claf erioed broblem o'r fath. d. Nid oedd y cynllun rheoli risg a welwyd ar gyfer claf A yn ddim mwy nag adolygiad o'r meysydd risg. e. Nid oedd y ffurflen capasiti a chydsyniad ar gyfer claf B wedi'i llenwi heblaw ar y dudalen gyntaf. Byddai angen i'r clinigwr cyfrifol presennol ail-wneud hon ac ni ellid dod o hyd iddi. f. Roedd y cynllun gofal ar gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ar gyfer claf B yn gwrthddweud ei hun o safbwynt defnydd yn y gorffennol.	
Rhaid rhoi sylw i'r holl feysydd a nodir uchod.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)
4. Nid oedd dim cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol wedi'u sefydlu. Fe'n hysbyswyd mai diffyg hyfforddiant oedd y rheswm am hyn. Rhaid cyflwyno cynlluniau o'r fath i'r grŵp cleifion.	Rheoliad 15 (9) (a) a (b)
5. Cwynai'r cleifion am ansawdd amrywiol y bwyd a ddarparwyd yn ogystal ac am yr amrywiaeth. Nid oeddent ychwaith yn hapus ynglŷn â maint y prydau. Rhaid gwella ansawdd, amrywiaeth a maint prydau.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)
6. Rhaid gwella profiad bwyta'r cleifion. Ar ward Sylfaen a ward Derwen nid oedd y byrddau wedi'u gosod. Nid oedd dim dŵr ar gael gyda'r bwyd ac nid oedd y staff yn bwyta gyda'r cleifion mewn ymgais i wella'r profiad.	Rheoliad 20 (2) (a)
7. Mae system gadarn a dibynadwy'n ofynnol i sicrhau bod goruchwyliaeth y staff yn cael ei fonitro.	Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a)
8. Mae angen gwella dau faes hyfforddiant gorfodol. Roedd hyfforddiant Rheoli trais ac ymddygiad ymosodol 26% o'r staff yn hwyr neu'n hen, ac roedd hyfforddiant Torri'n rhydd 15% o'r staff yn hwyr neu'n hen. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr hyfforddiant i'r holl staff yn ddiweddar.	Rheoliad 15 (1) (a) a (b)
9. Rhaid i ffurflenni Adran 62: Triniaeth Frys (Deddf Iechyd Meddwl) gael eu llenwi'n gyflawn. Nid oedd y clinigwr cyfrifol wedi llenwi ffurflen Adran 62 ar gyfer claf B yn gyflawn ac ni ddarparai'r dyddiad pan oedd y ffurflen yn gyfredol.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)

10. Mae angen i benderfyniadau uwch gael eu hadolygu yn unol â pholisïau/gweithdrefnau'r Priory a rhaid iddynt beidio â bod yn benderfyniadau ynysig. 11. Rhaid i ffeiliau'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar y ward gynnwys set gyflawn o ddogfennau cyfreithiol a rhaid iddynt gynnwys yr holl waith papur priodol ar gyfer cadw cleifion.	Rheoliad 19 (1) (a) a (b)
---	--------------------------------------

Rhaid i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **20^{fed} Mai 2014** yn disgrifio'r camau y bwriadwch eu cymryd i roi sylw i bob un o'r materion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu roi manylion amserlenni a phwy sy'n gyfrifol am fwrw'r gweithredu yn ei flaen. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun gweithredu yn briodol bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau cynnydd misol.

Pan ddaw'r llythyr hwn i law, bydd gofyn i'r Darparwr Cofrestredig wneud sylw ar gywirdeb ffeithiol y materion a nodir a phan ddaw'r cynllun gweithredu i law, caiff copi o'r llythyr rheoli hwn, ynghyd â'ch cynllun gweithredu eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'n bosibl y cynhaliwn ymweliad pellach i sicrhau bod y materion uchod wedi cael y sylw priodol a byddwn yn cynnal ymweliadau amlach os byddwn yn pryderu nad yw'r camau angenrheidiol yn cael eu cymryd yn amserol.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Ms Carla Rawlinson, Rheolwr yn Ysbyty Cefn Carnau.

Yn gywir



Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio

cc – Ms Carla Rawlinson, Cefn Carnau Uchaf, Thornhill, Caerffili CF83 1LY